

Cyngor Dinas Casnewydd
Dogfen ymgynghori:
Polisi Derbyn i Ysgolion

2018/2019



Mae'r Cod Derbyn i Ysgolion statudol yn rhoi arweiniad ar y broses y dylid ei dilyn wrth amrywio'r trefniadau derbyn cyhoeddedig ar gyfer unrhyw awdurdod sy'n derbyn. Yn unol â'r cod, rhaid cynnal ymgynghoriadau rhwng I Medi ac I Mawrth yn y flwyddyn benderfynu. Y flwyddyn benderfynu yw'r un sy'n cychwyn ddwy flwyddyn academaidd cyn i'r trefniadau ddod i rym, ac felly mae'n rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i'r trefniadau derbyn sy'n weithredol o Fedi 2018 ymlaen.

Mae'r newidiadau polisi arfaethedig yn yr ymgynghoriad hwn fel a ganlyn:

1. Newid i'r broses ymgeisio am le mewn dosbarth meithrin

Gall plentyn gychwyn mewn dosbarth meithrin ar un o dri dyddiad, sef y tymor yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn dair oed, h.y. Ionawr neu Ebrill (sef lle fel plentyn sy'n codi'n 3 oed) ac ym mis Medi. Mewn gair un lle meithrin yw hwn ond yn ôl y gyfraith mae plant hŷn yn gallu cychwyn yn gynt os oes llefydd ar gael.

Ar hyn o bryd yn yr amserlen dderbyn mae llefydd ar gyfer plant sy'n codi'n dair oed (R3), yn cael eu dyrannu mewn proses ar wahân cyn dyrannu llefydd mis Medi ond unwaith mae lle R3 wedi ei ddyrannu, disgwylir i'r plentyn barhau yn y lleoliad hwnnw tan iddo gyrraedd oed dosbarth Derbyn.

Gan nad yw disgyblion sy'n cael eu geni yn yr haf yn gallu manteisio ar le R3, mae'n rhaid iddyn nhw wneud cais ar gyfer mis Medi mewn ffenestr ymgeisio ar wahân, ar ôl i'r dyraniadau R3 gael eu gwneud. Mae hyn yn golygu bod llai o lefydd ar gael yn yr ail ffenestr, ac mae hyn yn anfantais.

Mae'r dull arfaethedig yn datrys yr anfantais trwy ddyrannu llefydd mis Medi'n gyntaf, a dim ond os yw'r disgyblion yn gymwys, a bod llefydd ar gael y bydd cychwyn cynnar yn cael ei gynnig.

2. Meini prawf pan fo gormod o geisiadau

Mae'r cynnig hwn yn diweddarar'r meini prawf pan fo gormod o geisiadau gan roi blaenoriaeth i blant agored i niwed sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant gael lle mewn ysgol os yw'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn argymhell hynny. Dim ond pan fo llefydd ar gael y caiff y flaenoriaeth hon ei gweithredu.

Os oes gennych sylwadau ar y ddogfen ymgynghori hon, dylech ysgrifennu at:

Drwy'r post:

Y Rheolwr Derbyniadau ac Apeliadau Ysgolion

Addysg

Cyngor Dinas Casnewydd

Y Ganolfan Ddinesig

Casnewydd

NP20 4UR

Neu drwy e-bost: school.admissions@newport.gov.uk

Rhaid i'r sylwadau gyrraedd erbyn canol dydd, dydd Mercher I Mawrth 2017, fan bellaf.

Cyhoeddwyd 31 Ionawr 2017

Cyflwyniad

Y ddogfen hon yw'r Polisi Derbyn i Ysgolion drafft sy'n nodi'n benodol y trefniadau derbyn i ysgolion yng Nghasnewydd ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19.

Cyngor Dinas Casnewydd yw'r awdurdod derbyn ar gyfer ysgolion cymunedol a gwirfoddol a reolir (Eglwys yng Nghymru Malpas) yng Nghasnewydd. Cyrff llywodraethu unigol yw'r awdurdodau derbyn ar gyfer ysgolion (ffydd) gwirfoddol a gynorthwyir yng Nghasnewydd.

Mae Fforwm Derbyn i Ysgolion Casnewydd yn monitro bod cydymffurfiaeth awdurdod derbyn i ysgolion yng Nghasnewydd â'r Cod Derbyn i Ysgolion ac effeithiolrwydd y trefniadau derbyn yng Nghasnewydd.

Mae'r Tîm Derbyn i Ysgolion ar gael i ysgolion a rhieni fel ffynhonnell o gyngor ar y broses dderbyn.

Mae'r polisi hwn ar waith er mwyn ymdrin â'r canlynol:

- **Y rownd dderbyn arferol (adran A)**

Yr oedran arferol i ddisgybl gael ei dderbyn i'r ysgol, sef 'cyfnod trosglwyddo'; dyma'r broses ymgeisio flynyddol i blant sy'n gymwys i gychwyn yn yr ysgol feithrin, y dosbarth derbyn, Blwyddyn 3 (ysgolion iau yn unig) neu Flwyddyn 7 (ysgol uwchradd) am y tro cyntaf ym mis Medi.

Mae'r amserlen dderbyn yn cael ei chyhoeddi yn www.newport.gov.uk/schooladmissions ac mae posteri'n cael eu harddangos yn ysgolion, llyfrgelloedd a chanolfannau cymuned a hamdden y Cyngor, ac yng nghylchlythyr y Cyngor - *Newport Matters*, sy'n cael ei ddosbarthu i bob aelwyd yng Nghasnewydd. Mae dyddiadau terfynol yn cael eu hysbysebu hefyd ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol y Cyngor ar Twitter a Facebook. Mae modd trefnu eich bod yn derbyn e-lythyr y Cyngor hefyd sef 'Keep me posted' ar hafan y wefan - www.newport.gov.uk

Cyfrifoldeb y rhiant neu'r gwarchodwr yw cadw llygaid ar agor am y posteri hyn a gwneud cais ar yr adeg briodol. Bydd plant sy'n trosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd yn derbyn llythyr drwy'r ysgol sy'n amlinellu'r broses dderbyn.

Dyma'r amserlen dderbyn ar gyfer 2018:

Medi 2018 Grŵp Derbyn:	Rownd dderbyn yn cychwyn	Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau	Dyddiad y cynnig
Blwyddyn 7 (ysgol uwchradd)	2 Hyd 17	30 Tach 17	1 Maw 18*
Dosbarth derbyn	1 Tach 17	12 Ion 18	16 Ebr 18*
Blwyddyn 3 (ysgol gynradd yn unig)	1 Tach 17	12 Ion 18	16 Ebr 18*
Meithrin	3 Gorff 17	18 Medi 17	30 Tach 17

*Dyddiad cynnig cyffredin yw hwn ar draws yr holl awdurdodau derbyn yng Nghymru

- **Derbyn yn ystod y flwyddyn (adran B)**

Weithiau cyfeirir at hyn fel 'trosglwyddo canol tymor' neu 'dderbyn achlysurol', dyma'r broses ymgeisio i blant o oedran ysgol sydd angen cael eu derbyn y tu allan i'r rownd dderbyn arferol. Dyma'r broses o drosglwyddo o un ysgol i un arall.

Trefniadau derbyn ar gyfer ysgolion cymunedol a gwirfoddol a reolir

Ardan A: Y rownd dderbyn arferol

I Derbyn i ddosbarth meithrin (addysg anstatudol)

I.1 Caiff plant eu derbyn i'r dosbarth meithrin ym mis Medi'r flwyddyn academaidd y bydd y plentyn yn dod yn bedair blwydd oed. Gall y lle hwn fod mewn ysgol neu mewn lleoliad nas cynhelir, a all fod yn gylch chwarae neu'n feithrinfa ddydd breifat. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am dderbyn plant i ysgolion meithrin cymunedol, ond i gael lle mewn lleoliad gwirfoddol a gynorthwyr neu leoliad nas cynhelir, bydd angen holi'r ysgol neu'r darparwr yn uniongyrchol.

I.2 Ni all y Cyngor ystyried ceisiadau i ddosbarth meithrin am ran o'r wythnos ysgol yn unig, felly mae llefydd mewn dosbarthiadau ac ysgolion meithrin yn cael eu cynnig fel sesiynau hanner diwrnod, naill ai'r bore neu'r prynhawn, 5 diwrnod yr wythnos. Mae ysgolion yn disgwyl i ddisgyblion sy'n mynychu'r dosbarth feithrin fod yn bresennol ym mhob un o'r sesiynau a gynigir iddyn nhw. Os nad yw rhieni'n dymuno i'w plentyn fynychu pob un o'r pum sesiwn bob wythnos, efallai y byddai'n well iddyn nhw chwilio am le mewn lleoliad nas cynhelir a fydd yn gallu ymdopi â'r trefniadau hyblyg hyn yn haws.

I.3 Dyddiadau allweddol ar gyfer derbyn i ddosbarth meithrin ym Medi 2018

- Dyddiad cyntaf ar gyfer ymgeisio yw 3 Gorffennaf 2017
- Dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw 18 Medi 2017
- Dyddiad cyhoeddi penderfyniadau yw 30 Tachwedd 2017

I.4 Ar ôl cael dyrannu lle mewn dosbarth meithrin ym mis Medi, gall plant sydd wedi eu geni rhwng 1 Medi a 31 Mawrth gael cynnig lle i gychwyn yn gynnar yn y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed, os oes llefydd ar gael. Fel rheol, gelwir hyn yn lle i **Blentyn sy'n codi'n 3 oed**. Nid yw plant sydd wedi eu geni rhwng 1 Ebrill a 31 Awst yn gallu cael lle fel plentyn sy'n codi'n 3 oed.

I.5 Yn wahanol i broses blynyddoedd blaenorol, dim ond un ffenestr ymgeisio sydd am le mewn dosbarth meithrin bellach, ac ar sail y cais hwnnw y cynigir llefydd mis Medi ac i blant sy'n codi'n 3 oed.

I.6 Os bydd llefydd i blant sy'n codi'n 3 oed ar gael, cynigir lle i ddisgyblion cymwys i gychwyn yn gynnar mewn meithrinfa benodol fel a ganlyn:

- Ar 30 Tachwedd 2017 ar gyfer llefydd Ionawr 2018 i blant sy'n codi'n 3 oed
- Ar 2 Mawrth 2018 ar gyfer llefydd Ebrill 2018 i blant sy'n codi'n 3 oed

I.7 Polisi'r Cyngor yw bodloni dymuniad rhieni pan fo hynny'n bosibl; serch hynny mewn rhai achosion efallai y bydd mwy o geisiadau am leoliad penodol nag sydd o lefydd ar gael. Wrth bennu pa blant ddylid eu derbyn i'r dosbarth meithrin, bydd y Cyngor yn defnyddio'r meini prawf canlynol yn nhrefn blaenoriaeth.

Meini prawf pan fo gormod o geisiadau am le mewn dosbarthiadau ac ysgolion meithrin

1.8 Pan fo ysgol wedi ei henwi mewn Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i dderbyn y plentyn i'r lleoliad a enwir cyn defnyddio meini prawf ceisiadau gormodol i ystyried y ceisiadau a dderbyniwyd. Bydd hyn yn lleihau nifer y llefydd sydd ar gael i ymgeiswyr eraill. Os yw cyfanswm y ceisiadau am lefydd mewn lleoliad meithrin yn fwy na'r llefydd sydd ar gael, yna bydd y drefn flaenoriaeth ganlynol yn cael ei defnyddio i ddyrannu'r llefydd sydd ar gael:

1. Plant sy'n derbyn gofal (plant sydd mewn gofal y cyhoeddus) a phlant a fu'n derbyn gofal (gweler paragraff 21);
2. Disgyblion sy'n byw o fewn y dalgylch (gweler paragraff 11) ac sy'n gwneud cais am resymau meddygol (gweler paragraff 22) neu sydd wedi eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a bod y cais wedi'i argymhell gan y Gwasanaethau Cymdeithasol (gweler paragraff 21);
3. Disgyblion sy'n byw y tu mewn i'r dalgylch (gweler paragraff 11);
4. Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch ac sy'n gwneud cais am resymau meddygol (gweler paragraff 22) neu sydd wedi'u rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a bod y cais wedi'i argymhell gan y Gwasanaethau Cymdeithasol (gweler paragraff 21);
5. Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch.

1.9 Ar ôl ystyried y categorïau uchod, neu os yw nifer y ceisiadau yn unrhyw un o'r categorïau uchod yn fwy na'r nifer derbyn cyhoeddedig, rhoddir blaenoriaeth ar sail y rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol a ddewiswyd (gweler paragraff 13).

1.10 Pennaeth yr ysgol berthnasol sy'n gyfrifol am ddyrannu sesiynau'r bore a'r prynhawn.

1.11 Dylech nodi y gall dyddiad cychwyn eich plentyn mewn dosbarth meithrin gael ei ohirio os nad yw'r plentyn wedi ei hyfforddi'n llawn i ddefnyddio'r toiled. Gellir trafod hyn gyda staff y dosbarth meithrin unwaith y bydd lle wedi ei ddyrannu i'ch plentyn.

1.12 Nid yw mynychu dosbarth meithrin yn gwarantu cael lle nac yn rhoi mantais i gais plentyn am le mewn dosbarth Derbyn. Rhaid i rieni wneud cais ar wahân i gael lle mewn dosbarth Derbyn ar yr adeg briodol.

2 Derbyn mewn Ysgol Gynradd

2.1 Gall plant gychwyn yn yr ysgol y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed. Nid yw mynychu dosbarth meithrin yn gwarantu lle mewn ysgol gynradd neu ysgol fabanod, gan fod angen cais ar wahân, ac ni roddir blaenoriaeth i'r plant hynny sy'n mynychu unrhyw leoliad meithrin arbennig.

2.2 Mae'r gofynion cyfreithiol yn cadarnhau bod rhieni'n gallu oedi mynediad eu plentyn (**gohirio mynediad**) tan y tymor ar ôl eu pumed pen-blwydd, ac ni fydd cais o'r fath yn rhagfarnu cais mewn unrhyw fodd. Fodd bynnag, disgwylid y Cyngor yw y bydd y plentyn, ar ôl cychwyn yn yr ysgol yn parhau i ddilyn ei grŵp oedran cronolegol oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol (gweler paragraff 7 Derbyn y tu allan i grŵp oedran arferol).

2.3 Pan fo rhiant yn defnyddio'i hawl i ohirio mynediad ei blentyn i'r dosbarth Derbyn tan yn ddiweddarach yn yr un flwyddyn ysgol, mae hyn yn golygu y bydd y lle'n cael ei gadw

i'r plentyn ac na fydd y lle ar gael i'w gynnig i blentyn arall yn yr un flwyddyn academaidd. Fodd bynnag, ni fyddai'r rhieni'n gallu gohirio mynediad y tu hwnt i ddechrau'r tymor ar ôl pumed pen-blwydd y plentyn, na thu hwnt i'r flwyddyn ysgol y gwnaed y cais ar ei chyfer.

2.4 Er enghraifft:

Tymor y mae'r plentyn yn troi'n 5 oed	Gellir gohirio'r dyddiad cychwyn tan ddechrau pa dymor?	A oes modd cadw'r lle ar agor ar gyfer y plentyn?	Y Grŵp Blwyddyn y bydd y plentyn yn cael ei dderbyn iddo
Hydref	Gwanwyn	Oes	Derbyn
Gwanwyn	Haf	Oes	Derbyn
Haf	Hydref	Nac oes	Blwyddyn I

2.5 Cyn penderfynu a ddylid gohirio dyddiad cychwyn eu plentyn yn yr ysgol, dylai rhieni gysylltu â'r ysgol(ion) o'u dewis i gael eglurhad ar sut maen nhw'n darparu ar gyfer y plant ieuengaf yn y dosbarth Derbyn a sut mae anghenion y plant hyn yn cael eu diwallu wrth iddyn nhw symud yn eu blaenau drwy'r ysgol.

2.6 Pan fo plentyn yn mynychu ysgol fabanod, nid yw hyn yn gwarantu y bydd yn cael trosglwyddo i'r ysgol iau gyfatebol ym Mlwyddyn 3. Mae pob ysgol yn cael ei dosbarthu fel sefydliad addysgol ar wahân ac felly mae angen cais ar wahân i gael lle mewn Ysgol Iau ar yr adeg briodol. Nid yw'r broses ymgeisio hon yn berthnasol i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd.

2.7 Dyddiadau allweddol ar gyfer cael lle mewn dosbarth Derbyn ac ym Mlwyddyn 3 (ysgolion iau yn unig) ym mis Medi 2018

- Dyddiad cyntaf ar gyfer ymgeisio yw 1 Tachwedd 2017
- Dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw 12 Ionawr 2018
- Dyddiad cyhoeddi penderfyniadau yw 16 Ebrill 2018

2.8 Polisi'r Cyngor yw bodloni dewis rhieni os yw hynny'n bosibl; serch hynny, mewn rhai achosion gall fod gormod o geisiadau am le mewn rhai ysgolion penodol. Wrth benderfynu pa blant ddylai gael eu derbyn i ysgol, bydd y Cyngor yn defnyddio'r meini prawf canlynol yn nhrefn blaenoriaeth pan fo gormod o geisiadau.

Meini prawf pan fo gormod o geisiadau am le mewn ysgolion cynradd

2.9 Pan fo ysgol wedi'i henwi mewn Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i dderbyn y plentyn a enwir i'r lleoliad cyn defnyddio meini prawf ceisiadau gormodol i ystyried y ceisiadau a dderbyniwyd. Bydd hyn yn lleihau nifer y llefydd sydd ar gael i ymgeiswyr eraill. Os yw cyfanswm y ceisiadau am fynediad yn fwy na'r llefydd sydd ar gael yn yr ysgol, yna bydd y drefn flaenoriaeth ganlynol yn cael ei defnyddio i ddyrannu'r llefydd sydd ar gael:

1. Plant sy'n derbyn gofal (plant sydd mewn gofal cyhoeddus) a phlant a fu'n derbyn gofal (gweler paragraff 21).
2. Disgyblion sy'n byw o fewn y dalgylch (gweler paragraff 11) ac sy'n gwneud cais am resymau meddygol (gweler paragraff 22) neu sydd wedi eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a bod y cais wedi'i argymhell gan y Gwasanaethau Cymdeithasol (gweler paragraff 21).
3. Disgyblion sy'n byw y tu mewn i'r dalgylch (gweler paragraff 11) ond sydd â brodyr a/neu chwiirydd perthnasol (gweler paragraff 29).

4. Disgyblion sy'n byw y tu mewn i'r dalgylch area (gweler paragraff 11).
5. Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch ac sy'n gwneud cais am resymau meddygol (gweler paragraff 22) neu sydd wedi'u rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a bod y cais wedi'i argymhell gan y Gwasanaethau Cymdeithasol (gweler paragraff 21).
6. Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch ond sydd â brodyr a/neu chwiorydd perthnasol (gweler paragraff 29).
7. Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch.

2.10 Ar ôl ystyried y categorïau uchod, neu os yw'r ceisiadau yn unrhyw un o'r categorïau uchod yn fwy na'r nifer derbyn cyhoeddedig, rhoddir blaenoriaeth ar sail y rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol a ddewiswyd (gweler paragraff 13).

Meini prawf derbyn i Malpas Church in Wales Infant School/ Malpas Church in Wales Junior School

2.11 Ysgolion gwirfoddol a reolir yw Ysgol Fabanod ac Ysgol Iau yr Eglwys yng Nghymru Malpas a'r Cyngor yw'r awdurdod derbyn. O ganlyniad, defnyddir meini prawf ceisiadau gormodol cyhoeddedig y Cyngor fel yr amlinellir uchod i ystyried ceisiadau am le yn yr ysgol. Ym mhob categori, fodd bynnag, mae'r blaenoriaethau canlynol yn berthnasol:

- Plant a / neu riant/rhieni sy'n aelodau gweithredol o gorff crefyddol sylfaenol yr ysgol (Yr Eglwys yng Nghymru);
- Plant a / neu riant/rhieni sy'n aelodau gweithredol o eglwysi neu enwadau Cristnogol eraill;
- Plant a / neu riant/rhieni sy'n aelodau gweithredol o gredoau eraill.

2.12 Wrth wneud penderfyniadau ynghylch y flaenoriaeth hon, diffinnir y gair 'gweithredol' fel a ganlyn – bod o leiaf un riant a / neu blentyn wedi mynychu Eglwys o leiaf unwaith y mis am y chwe mis diwethaf (lle bo angen gellir cadarnhau hyn gydag aelod o'r offeiriadaeth).

3 Mynediad i ysgol uwchradd

3.1 Mae plant yn trosglwyddo o ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ar ddechrau'r flwyddyn ysgol y byddan nhw'n cael eu pen-blwydd yn ddeuddeg oed. Cofiwch nad yw mynychu ysgol gynradd neu ysgol iau yn gwarantu lle mewn ysgol uwchradd benodol, ac nad oes blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r plant hynny sy'n mynychu unrhyw ysgol gynradd o fewn clwstwr.

3.2 Dyddiadau allweddol ar gyfer lle ym Mlwyddyn 7 mewn ysgol uwchradd ym mis Medi 2018

- Dyddiad cyntaf ar gyfer ymgeisio yw 2 Hydref 2017
- Dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw 30 Tachwedd 2017
- Dyddiad cyhoeddi penderfyniadau yw 1 Mawrth 2018

3.3 Polisi'r Cyngor yw bodloni dewis rhieni os yw hynny'n bosibl; serch hynny, mewn rhai achosion gall fod gormod o geisiadau am le mewn rhai ysgolion penodol. Wrth benderfynu pa blant ddylai gael eu derbyn i ysgol, bydd y Cyngor yn defnyddio'r meini prawf canlynol yn nhrefn blaenoriaeth pan fo gormod o geisiadau.

Meini prawf pan fo gormod o geisiadau am le mewn ysgol uwchradd

3.4 Pan fo ysgol wedi'i henwi mewn Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i dderbyn y plentyn a enwir i'r lleoliad cyn defnyddio meini prawf

ceisiadau gormodol i ystyried y ceisiadau a dderbyniwyd. Bydd hyn yn lleihau nifer y llefydd sydd ar gael i ymgeiswyr eraill. Os yw cyfanswm y ceisiadau am fynediad yn fwy na'r llefydd sydd ar gael yn yr ysgol, yna bydd y drefn flaenoriaeth ganlynol yn cael ei defnyddio i ddyrannu'r llefydd sydd ar gael:

1. Plant sy'n derbyn gofal (plant mewn gofal cyhoeddus) a phlant a fu'n derbyn gofal (gweler paragraff 21).
2. Disgyblion sy'n byw o fewn y dalgylch (gweler paragraff 11) ac sy'n gwneud cais am resymau meddygol (gweler paragraff 22) neu sydd wedi eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a bod y cais wedi'i argymhell gan y Gwasanaethau Cymdeithasol (gweler paragraff 21).
3. Disgyblion sy'n byw y tu mewn i'r dalgylch (gweler paragraff 11) ond sydd â brodyr a/neu chwiorydd perthnasol (gweler paragraff 29).
4. Disgyblion sy'n byw y tu mewn i'r dalgylch (gweler paragraff 11).
5. Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch ac sy'n gwneud cais am resymau meddygol (gweler paragraff 22) neu sydd wedi'u rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a bod y cais wedi'i argymhell gan y Gwasanaethau Cymdeithasol (gweler paragraff 21).
6. Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch ond sydd â brodyr a/neu chwiorydd perthnasol (gweler paragraff 29).
7. Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch.

3.5 Ar ôl ystyried y categorïau uchod, neu os yw'r ceisiadau yn unrhyw un o'r categorïau uchod yn fwy na'r rhif derbyn cyhoeddedig, rhoddir blaenoriaeth ar sail y rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol a ddewiswyd (gweler paragraff 13).

4 Mynediad i chweched dosbarth (addysg anstatudol)

4.1 Mae pob ysgol uwchradd prif ffrwd yng Nghasnewydd yn ysgolion cyfun cymysg gyda darpariaeth chweched dosbarth (ac eithrio Ysgol Gyfun Gwent Is Coed, sef egin ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg Casnewydd, a fydd yn darparu ar gyfer disgyblion 11 – 18 oed erbyn 2020). Yn y cyfamser, mae darpariaeth chweched dosbarth cyfrwng Cymraeg ar gael yn Ysgol Gyfun Gwynllyw, Pont-y-pŵl.

4.2 Ar hyn o bryd, dylai disgyblion sy'n ymgeisio am addysg ôl - 16 wneud cais am le trwy gysylltu'n uniongyrchol â'r ysgol berthnasol.

Gwybodaeth arall sy'n berthnasol i drefniadau derbyn

5 Anghenion Dysgu Ychwanegol

5.1 O ran disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, mae cael lle mewn ysgol yn dibynnu ar y dewis o ysgol gan rieni mewn ffordd sy'n debyg yn fras i ddisgyblion eraill. Fodd bynnag, hwyrach y bydd angen ystyried amgylchiadau unigol sy'n ymwneud â disgyblion ac ysgolion. Yn y pen draw, mae'r broses leoli'n cael ei rheoli gan y gweithdrefnau a nodir yn y Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig. Gallai'r broses hon roi blaenoriaeth arbennig i ddisgybl gael lle mewn ysgol benodol. Gallai hefyd fod yn rheswm dros wrthod y dewis sydd wedi cael ei ddatgan gan riant.

5.2 Mae'n rhaid i bob plentyn sydd angen lle mewn ysgol prif ffrwd wneud cais trwy'r broses dderbyn i ysgolion, hyd yn oed os oes gan y plentyn ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Pan fo ysgol wedi'i henwi yn natganiad disgybl, bydd yn cael ei dderbyn yn awtomatig i'r ysgol a enwir. Os nad oes ysgol benodol yn cael ei henwi, ystyrir y gall anghenion y plentyn gael eu diwallu mewn unrhyw ysgol brif ffrwd ac felly ni roddir

blaenoriaeth benodol a bydd y cais yn cael ei asesu yn unol â'r meini prawf ceisiadau gormodol a gytunwyd.

6 Apelio yn erbyn penderfyniadau

6.1 Pan wrthodir lle i blentyn (ac eithrio plentyn sydd wedi ei wahardd yn barhaol o ddwy ysgol), mae gan ei riant hawl statudol i apelio i banel annibynnol (nid yw'r hawl hon i apelio yn berthnasol i geisiadau am addysg feithrin).

6.2 Os nad yw'r Cyngor yn gallu dyrannu lle yn yr ysgol o ddewis, bydd rhieni'n cael llythyr yn rhoi'r rhesymau am wrthod y cais, gan gynnwys p'un a wnaed y penderfyniad ar sail cyfyngiadau maint dosbarthiadau babanod. Bydd y llythyr hwn yn hysbysu'r rhieni o'u hawl i apelio, a sut ac erbyn pryd y dylid cyflwyno'r apêl.

6.3 Gall y Cyngor hefyd gynnig lle mewn ysgol arall i'ch plentyn ac yna mae'n rhaid i'r rheini benderfynu:

- i. a ydyn nhw am apelio yn erbyn penderfyniad y Cyngor; a/neu
- ii. a ydyn nhw am dderbyn lle yn yr ysgol arall, os gwneir cynnig; neu
- iii. a ydyn nhw am gyflwyno dewisiadau eraill

6.4 Nid yw'r penderfyniad i apelio yn atal rhieni rhag derbyn ysgol amgen tra bo'r broses apelio'n mynd rhagddi.

6.5 Wrth gyflwyno apêl, mae'n ofynnol i rieni gwblhau'r ffurflen a gaiff ei hanfon gyda'r llythyr sy'n nodi penderfyniad y Cyngor, a dylent roi'r rhesymau pam y dylai eu plentyn gael ei dderbyn i'r ysgol o'u dewis. Yna, dylid anfon y ffurflen at y Cyngor erbyn y dyddiad cau a nodir, er mwyn sicrhau bod yr apêl yn cael gwrandawriad. Cofiwch, os na fydd y ffurflen apêl yn cael ei llofnodi a'i chwblhau'n llawn i nodi'r rhesymau hyn, bydd y ffurflen yn cael ei dychwelyd er mwyn i'r rhieni wneud hynny.

6.6 Ar ôl i apêl gael ei chyflwyno, bydd rhieni yn cael arweiniad pellach ynghylch beth i'w ddisgwyl yn yr apêl, a dyddiad ac amser ar gyfer eu gwrandawriad. Rhaid i'r Cyngor drefnu apeliadau mewn perthynas â'r rownd dderbyniadau arferol cyn pen 30 diwrnod ysgol **o'r dyddiad cau penodedig** a chyn pen 30 diwrnod ysgol **o dderbyn yr apêl** ar gyfer apeliadau sy'n cael eu cyflwyno y tu allan i rownd dderbyniadau arferol. Dylech nodi, yn ystod y gwyliau haf fod yn rhaid i'r Cyngor drefnu apeliadau cyn o fewn 30 **diwrnod gwaith** i dderbyn yr apêl.

6.7 Mae paneli apeliadau derbyn yn annibynnol ac mae ganddyn nhw rôl allweddol o ran sicrhau cydbwysedd rhwng hawl rhieni i wrandawriad llawn a theg a gwarchod ysgolion rhag derbyn cynifer o blant fel bod hynny'n peryglu addysg effeithlon neu ddefnydd effeithlon o adnoddau.

Beth fydd angen i'r Panel Apeliadau ei ystyried?

6.8 Apêl yn ymwneud â maint dosbarth babanod: Pan fo lle wedi'i wrthod ar sail gorlenwi dosbarth babanod, dim ond os yw'r canlynol yn wir y gall panel gefnogi'r apêl:

- i. y byddai lle wedi ei gynnig i'r plentyn pe bai'r trefniadau derbyn i'r ysgol wedi cydymffurfio â gofynion y Cod Derbyn i Ysgolion a/neu Ran 3 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;
- ii. y byddai lle wedi ei gynnig i'r plentyn pe bai trefniadau derbyn mewn modd sy'n cydymffurfio wedi'u gweithredu'n briodol;

- iii. nad oedd y penderfyniad yn un y byddai awdurdod derbyn rhesymol wedi ei wneud dan amgylchiadau'r achos.

6.9 Apêl yn erbyn effaith niweidiol: Ym mhob achos arall bydd lle wedi'i wrthod oherwydd bod nifer derbyn cyhoeddedig ar gyfer y grŵp blwyddyn wedi ei gyrraedd, ac y byddai derbyn plentyn ychwanegol yn peryglu gallu'r ysgol i ddarparu addysg effeithlon neu i ddefnyddio adnoddau addysg yn effeithlon trwy amharu ar yr amgylchedd dysgu yn yr ysgol a chyfyngu ar fynediad disgyblion i'r adnoddau sydd ar gael. Rhaid i banel apêl ddefnyddio proses dau gam pan geir achos o apelïadau yn erbyn effaith niweidiol; h.y.

- y cam ffeithiol lle mae'n rhaid i'r Panel Apeliadau Derbyn i Ysgolion ystyried a yw'r trefniadau derbyn cyhoeddedig yn cydymffurfio â gofynion gorfodol y Cod Derbyn i Ysgolion a Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion a'u bod wedi eu defnyddio'n gywir a diragfarn, a phenderfynu ar fater o ffaith a fyddai 'niwed' yn digwydd pe bai'r plentyn yn cael ei dderbyn, a'r
- cam cydbwysedd lle gall y Panel Apeliadau Derbyn i Ysgolion ddefnyddio'i ddisgresiwn, gan gydbwyso graddau'r 'niwed' (os gwelir bod hynny'n bodoli yn y cam cyntaf) a phwysau achos yr apelydd cyn dod i benderfyniad.

6.10 Er mwyn sefydlu a oes 'effaith niweidiol' ai peidio, bydd angen i'r panel ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys maint yr ysgol a niferoedd derbyn cyhoeddedig a'r effaith ar yr ysgol os dyrennir rhagor o ddisgyblion o safbwynt trefnu a maint dosbarthiadau, y staff addysgu sydd ar gael a'r effaith ar y disgyblion sydd eisoes yn yr ysgol.

6.11 Ym mhob achos, bydd penderfyniad y Panel yn cael ei gyfleu ar bapur i'r apelydd a bydd y penderfyniad yn derfynol a gorfodol ar yr holl bartïon.

6.12 Pan fo'r apêl yn llwyddiannus, derbynnir y plentyn i'r ysgol a disgwylir i'r rhieni gysylltu'n uniongyrchol â'r ysgol i gadarnhau trefniadau derbyn.

6.13 Pan fo'r apêl yn aflwyddiannus, ni all y plentyn gael ei dderbyn i'r ysgol ond bydd yn parhau ar y rhestr aros (gweler y manylion ym mharagraff 32). Wedyn, mae'n rhaid i'r rhieni benderfynu a ydyn nhw am:

- i. aros yn yr ysgol gyfredol, os yw'n berthnasol; neu
- ii. dderbyn y lle yn yr ysgol arall, os oes cynnig wedi'i wneud; neu
- iii. gyflwyno dewisiadau amgen

6.14 Gyda chais aflwyddiannus, dim ond os oes tystiolaeth o newid amgylchiadau gwirioneddol neu ychwanegol y gellir gwneud ail gais o fewn y flwyddyn academaidd honno.

6.15 Gall yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ymchwilio i gwynion ysgrifenedig am gamweinyddu ar ran panel apelïadau derbyn. Mae camweinyddu'n cynnwys materion megis methiant i weithredu'n annibynnol a theg, yn hytrach na chwynion pan fo rhywun yn teimlo bod y penderfyniad anghywir wedi'i wneud. Dim ond os yw apelyddion neu awdurdod derbyn wedi llwyddo yn eu cais am Adolygiad Barnwrol o'r penderfyniad dan sylw y gellir gwrthdroi penderfyniad panel.

7 Derbyn y tu allan i grŵp oedran arferol

Disgwyliad arferol y Cyngor yw y bydd plant yn cael eu haddysgu yn eu grŵp oedran cronolegol, oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol. Yn gyffredinol, mae'r amgylchiadau eithriadol hyn yn ymwneud â phlant ag anghenion dysgu ychwanegol neu blant

sydd wedi cael problemau neu sydd wedi colli rhan o flwyddyn, yn aml oherwydd salwch. Pan fo amgylchiadau eithriadol, mae cais rhiant am i blentyn gael ei dderbyn y tu allan i grŵp oedran arferol yn cael ei ystyried. Er hynny, cofiwch nad oes hawl i rieni apelio os cynigir lle ac nad yw'r lle hwnnw yn y grŵp oedran y gofynnwyd amdano.

8 Dyrannu llefydd

8.1 Nid yw llefydd yn cael eu dyrannu ar sail 'y cyntaf i'r felin' ac nid oes mantais i rieni roi enw eu plentyn i ysgol cyn pobl eraill. Nid oes gan benaethiaid unrhyw ran yn y broses benderfynu, na dylanwad dros ganlyniad unrhyw gais ac felly maent yn cael eu hannog i beidio â dangos unrhyw ddiddordeb yn y rhestr. Dim ond yr awdurdod derbyn all wneud penderfyniad i ddyrannu lle.

8.2 Ystyrir pob cais yn unol â'r Polisi Derbyn i Ysgolion ac mae dewis cyntaf ymgeisydd yn cael ei ganiatáu lle bynnag y bo'n bosibl. Fodd bynnag, bydd rhai ysgolion yn cael mwy o geisiadau nag sydd o lefydd ar gael yn yr ysgol.

8.3 Pan fo nifer y ceisiadau yn gyfartal â nifer y llefydd sydd ar gael, neu'n llai na hynny, bydd pob cais yn llwyddo. Ond pan fydd nifer y ceisiadau yn fwy na nifer y llefydd sydd ar gael, bydd y Cyngor yn defnyddio meini prawf ceisiadau gormodol perthnasol ac yn dyrannu llefydd yn unol â hynny, hyd at y nifer derbyn cyhoeddedig.

8.4 Mae'r nifer derbyn cyhoeddedig yn nodi nifer y llefydd sydd ar gael ac yn cyfeirio at nifer y disgyblion gaiff eu derbyn i unrhyw grŵp blwyddyn cyn y gellir gwrthod ceisiadau. Mae'r nifer yn seiliedig ar faint ffisegol yr ysgol i allu diwallu anghenion addysgol disgyblion, yn unol â fformwla a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

8.5 Pan fydd y nifer derbyn wedi ei gyrraedd, bydd pob cais ychwanegol yn cael ei wrthod.

8.6 Er enghraifft:

- Os gall ysgol gynnig lle i 30 plentyn a bod y Cyngor yn derbyn 27 cais, bydd pob un o'r 27 cais yn derbyn lle;
- Ond, os bydd y Cyngor yn derbyn 36 cais ar gyfer yr ysgol honno, bydd y 36 cais yn cael eu hystyried gyda'i gilydd yn erbyn y meini prawf ceisiadau gormodol a bydd 30 lle yn cael eu cynnig. Bydd y 6 cais arall yn cael eu gwrthod.

8.7 Yn ogystal â nifer derbyn yr ysgol, rhaid i'r Cyngor hefyd ystyried:

- Menter maint dosbarthiadau babanod sy'n ymrwymo i sicrhau nad oes unrhyw blentyn 5, 6 neu 7 oed mewn dosbarth gyda mwy na 30 disgybl am bob un athro cymwysedig, Mae'r cyfyngiad statudol ar faint dosbarthiadau babanod o 30 plentyn yn berthnasol i ddosbarthiadau derbyn, blwyddyn 1 a blwyddyn 2.
- Cyfyngiadau ffisegol yr ysgol ac adeiladau'r safle a all olygu bod llai na 30 disgybl mewn dosbarth.

8.8 Fodd bynnag, mae eithriadau i'r rheoliadau hyn (sef "disgyblion a eithrir") a all olygu bod mwy na'r terfyn o 30 plentyn mewn dosbarth. Mae'r disgyblion hyn yn cael eu hamlinellu'n benodol yng Nghod Derbyn i Ysgolion statudol Llywodraeth Cymru. Bydd disgyblion disgwylidig yn parhau felly, ar ôl cael eu derbyn, am weddill eu hamser mewn dosbarth babanod neu tan y bydd niferoedd y dosbarth yn gostwng ac y gellir eu trefnu i

gydymffurfio â therfynau maint dosbarthiadau babanod. Rhaid trefnu dosbarthiadau i gydymffurfio â'r terfyn lle bo'n bosibl.

8.9 Fel rheol, ni fydd y Cyngor yn mynd y tu hwnt i niferoedd derbyn mewn ysgol neu'n torri'r terfynau gorfodol mwyafswm statudol dosbarth babanod (30), ac eithrio:

- Pan fo ysgol wedi'i henwi mewn datganiad o anghenion addysgol arbennig, ac mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i dderbyn y plentyn i'r ysgol.
- Pan fo plentyn yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol neu'n blentyn a fu'n derbyn gofal (fel y'i diffinnir yng Nghod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru, rhif y ddogfen 005/2-13) mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i dderbyn y plentyn i'r ysgol.
- Pan fo cais i blentyn un o aelodau staff y lluoedd arfog sydd naill ai'n gwasanaethu neu'n dychwelyd ar ôl gwasanaethu ar yr adeg y gwneir y cais, bydd y Cyngor yn derbyn y plentyn i'r ysgol.
- Wrth ddefnyddio'r meini prawf ceisiadau gormodol, pan fo'r plentyn olaf i gael ei dderbyn yn un o enedigaeth luosog, bydd y Cyngor yn derbyn y brawd/chwaer/brodyr/chwirydd arall/eraill.
- Pan fo plentyn wedi ei wrthod yn y lle cyntaf ond yn ddiweddarach wedi cael cynnig lle trwy gyfarwyddyd panel apeliadau derbyn i ysgol, mae'n rhaid i'r Cyngor dderbyn y plentyn i'r ysgol.

9 Aelodau staff y lluoedd arfog

Pan fo cais ar gyfer plentyn i aelod staff y lluoedd arfog sydd naill ai'n gwasanaethu neu'n dychwelyd ar ôl gwasanaethu ar yr adeg y gwneir y cais, bydd y Cyngor yn derbyn y plentyn i'r ysgol (gweler paragraff 8.9) os oes prawf swyddogol o leoliad y swydd yn cael ei anfon gyda'r cais sy'n nodi:

- dyddiad dychwelyd pendant;
- cadarnhad o gyfeiriad newydd lle bo'n bosibl;
- cadarnhad o statws gwasanaethu/dychwelyd y teulu.

10 Gwneud cais am le mewn ysgol

10.1 Yng Nghasnewydd, y Cyngor sy'n prosesu ceisiadau ar gyfer pob ysgol gymunedol a gwirfoddol a reolir. Y Corff Llywodraethu yw'r awdurdod derbyn ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr yng Nghasnewydd a dylid gwneud cais yn uniongyrchol i'r ysgol.

10.2 Gellir gwneud cais ar-lein trwy wefan Cyngor Dinas Casnewydd:

www.newport.gov.uk/schooladmissions rhwng y dyddiadau dechrau a chau a nodir ym tud 2. Wrth wneud cais ar-lein, bydd ymgeiswyr yn derbyn cadarnhad ar unwaith fod eu cais wedi ei gyflwyno a gallan nhw weld eu penderfyniad ar-lein ar y dyddiad y gwneir y cynigion. Serch hynny, os na fydd y cadarnhad e-bost yn cael ei dderbyn, dylai'r ymgeisydd gysylltu â'r Tîm Derbyn i Ysgolion ar unwaith i wneud yn siŵr bod y cais wedi ei gyflwyno'n llwyddiannus.

10.3 Os nad oes gennych chi gysylltiad â'r rhyngrwyd gartref:

- Gallwch ddefnyddio'r rhyngrwyd yn holl lyfrgelloedd Casnewydd ac nid oes rhaid talu am ei ddefnyddio am y ddwy awr gyntaf. Mae manylion y gwahanol lyfrgelloedd ar gael trwy ffonio Canolfan Gyswllt y Ddinas ar 01633 656656;
- Mae modd i chi gael cymorth gyda'ch cais ar-lein hefyd yn Newport Information Station, Old Station Building, Queensway, Casnewydd NP20 4AX. Mae'r orsaf ar agor Llun - Gwener 8.30 am tan 5.00 pm;

- Gallwch wneud cais dros y ffôn trwy ffonio 01633 656656. Mae'r gwasanaeth ar gael Llun - Gwener 8.00 am tan 6.00 pm;
- Gallwch gael ffurflen gais bapur trwy ffonio Canolfan Gyswilt y Ddinas ar 01633 656656.

10.4 Dim ond pobl sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plant a enwir sy'n gallu gwneud cais a bydd yn ofynnol iddyn nhw wneud datganiad i gadarnhau hynny fel rhan o'r broses ymgeisio. Fel rheol, disgwylir y bydd y person hwn yn byw yn yr un cyfeiriad â'r plentyn a chyfeirir ato fel y rhiant at ddibenion y broses dderbyn. Pan fo cyfrifoldeb rhieni yn cael ei rannu'n gyfartal, bydd y Cyngor yn gofyn i rieni'r plentyn benderfynu pa riant ddylai gyflwyno'r cais. Os na all y rhieni benderfynu ac nad oes gan y naill na'r llall orchymyn llys sy'n datgan pwy ddylai fod yn gwneud y cais, bydd y Cyngor yn derbyn cais oddi wrth y rhiant sy'n derbyn Budd-dâl Plant ar gyfer y plentyn.

10.5 Cyn penderfynu gwneud cais am le mewn ysgol benodol (gweler paragraff 26 dewis rhieni), bydd angen i ymgeiswyr ystyried yn ofalus sut bydd y plentyn yn teithio i'r ysgol, oherwydd efallai na fydd y plentyn yn gymwys i dderbyn cymorth. Os yw'r Cyngor yn penderfynu bod plentyn yn byw ddwy filltir neu fwy (i blant ysgol gynradd) neu dair milltir neu fwy (i blant ysgol uwchradd) o'ch dalgylch neu'r ysgol agosaf sydd ar gael (fel y pennir gan y Cyngor) efallai y byddan nhw'n gymwys i gael cludiant di-dâl yn ôl a blaen o'r cartref i'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion ffydd.

10.6 Mae'n rhaid cyflwyno pob cais yn uniongyrchol i'r Tîm Derbyn i Ysgolion yn y Ganolfan Ddinesig cyn y dyddiad terfynol perthnasol. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod eu cais yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor mewn pryd.

10.7 Ni all y Cyngor dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw gais neu dystiolaeth nad yw wedi ei gyflwyno'n gywir trwy'r system ar-lein neu sydd wedi mynd ar goll yn y post. Wrth bostio cais, argymhellir defnyddio post cofrestredig i anfon y ffurflen.

10.8 Dim ond ar ôl i'r llefydd gael eu dyrannu i ymgeiswyr a dderbyniwyd mewn pryd y bydd ceisiadau a dderbyniwyd yn hwyr yn cael eu prosesu, a gall hyn gynyddu'r posibilrwydd o fethu â chael lle yn yr ysgol o ddewis (gweler paragraff 20 - ceisiadau hwyr a dewisiadau ychwanegol).

10.9 Bydd yr holl geisiadau a gyflwynir erbyn y dyddiad cau yn cael eu prosesu gyda'i gilydd. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae mwy na 1,000 o geisiadau'n cael eu cyflwyno yn y rownd dderbyn ac mae nifer o wiriadau i'w gwneud ar bob cais. Felly, mae amserlen y derbyniadau'n pennu dyddiad cau fisoedd lawer cyn dyddiad y cynnig (y dyddiad y bydd y penderfyniad yn cael ei gyhoeddi), ac ni ellir ystyried unrhyw newid mewn amgylchiadau sy'n cael eu cyflwyno i sylw'r Tîm Derbyn i Ysgolion ar ôl y dyddiad cau, tan ar ôl y dyddiad cynnig cyhoeddedig (paragraff 20 ceisiadau hwyr a dewisiadau ychwanegol).

10.10 At ddibenion prosesu ceisiadau am lefydd mewn ysgolion yng Nghasnewydd, gall y wybodaeth mae ymgeiswyr yn ei darparu yn eu cais gael ei rhannu ag asiantaethau eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag addysg, iechyd a lles plant ysgol ac awdurdodau derbyn lleol eraill, gan gynnwys ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr a chynghorau sy'n rhannu ffiniau cyffredin â Chasnewydd.

11 Dalgylchoedd

11.1 'Dalgylch' yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio ardal ddaearyddol sy'n cael ei gwasanaethu gan ysgol. Yng Nghasnewydd bydd cyfeiriad pob cartref yn perthyn i ddalgylch ysgol cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg. Gallwch gadarnhau manylion dalgylchoedd ysgolion trwy ffonio'r Tîm Derbyn i Ysgolion ar 01633 656656 neu trwy fynd i'r wefan: www.newport.gov.uk/schooladmissions

11.2 Bydd gan drigolion sy'n byw mewn dalgylch ysgol flaenoriaeth uwch i gael lle ond nid oes unrhyw warant o le mewn unrhyw ysgol benodol.

11.3 Nid yr ysgol agosaf yw'r ysgol ddalgylch o reidrwydd, felly dylai ymgeiswyr gadarnhau pa un yw ei hysgol ddalgylch cyn gwneud cais am le, yn enwedig gan y gallai eu dewis effeithio ar unrhyw hawl i gludiant yn ôl a blaen o'r cartref i'r ysgol. (gweler paragraff 30).

12 Gweision y goron

Ystyrir bod plant Gweision y Goron (gan gynnwys diplomyddion) sy'n symud i Gasnewydd yn bodloni meini prawf preswylwyr ar gyfer yr ysgol ddalgylch berthnasol os anfonir prawf swyddogol drwy'r post gyda'r cais yn datgan:

- dyddiad dychwelyd pendant;
- cadarnhad o gyfeiriad newydd os yw'n bosibl;
- cadarnhad o statws Gwas y Goron.

13 Pellter rhwng y cartref a'r ysgol

13.1 Ym mhob cyfres o feini prawf ceisiadau gormodol, os yw nifer y ceisiadau mewn unrhyw gategori penodol yn fwy na'r nifer llefydd cyhoeddedig, rhoddir blaenoriaeth ar sail y rhai sy'n bwy agosaf at yr ysgol o ddewis.

13.2 Mae'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol yn cael ei fesur fel y llwybr cerdded byrraf posibl, ac yn cael ei bennu gan ddefnyddio llwybrau swyddogol sy'n hysbys i asiantaethau'r Cyngor a'r Priffyrdd fel y Rhwydwaith Cerdded Diogel. Mae'r Cyngor yn ystyried fod llwybr 'ar gael' os gall plentyn, gyda chwmpeni yn ôl yr angen, gerdded i'r ysgol mewn diogelwch rhesymol.

13.3 Wrth asesu a yw llwybr 'ar gael' bydd y cyngor yn dilyn y canllawiau a nodir yng Nghanllawiau Gweithredol a Darpariaeth Statudol Llywodraeth Cymru ar Deithio gan Ddysgwyr, Mehefin 2014 a bydd yn rhoi sylw i'r peryglon a ffactorau diogelwch perthnasol eraill, y gallai plentyn, gyda chwmpeni yn ôl yr angen, eu cyfarfod ar hyd y llwybr a ddynodir (gan gynnwys er enghraifft, camlesi, afonydd, ffosydd, goleuadau stryd, palmentydd a chyflymder traffig ar hyd y ffyrdd, ac ati).

13.4 Bydd y Cyngor yn cyfrifo pellter y daith gan ddefnyddio ei feddalwedd cyfeirio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) ei hun, Routefinder a MapInfo Desktop Solutions. Er mwyn sicrhau tegwch a chysondeb i'r holl ymgeiswyr, dyma'r unig offeryn mesur a ddefnyddir gan y Cyngor.

13.5 Bydd man cychwyn y llwybr a deithir yn cael ei bennu fel y pwynt rhwydwaith agosaf i brif fynedfa'r eiddo. Pennir y brif fynedfa gan y Cyngor gan ddefnyddio'r Rhestr Tir ac Eiddo

Lleol. Bydd terfynfa'r llwybr a gyfrifir yn cael ei bennu fel y glwyd agored swyddogol agosaf a gaiff ei defnyddio gan yr ysgol.

13.6 Pennir cyfesurynnau cyfeiriad ymgeisydd trwy ddefnyddio'r Rhestr Tir ac Eiddo Lleol a data Pwynt Cyfeiriad yr Arolwg Ordnans.

13.7 Lle bo dau neu fwy o ymgeiswyr yn cael eu hystyried ar gyfer y lle olaf sydd ar gael, a bod y cyfrifiadau pellter o'u cartref i'r ysgol yr un fath, defnyddir olwyn gerdded i fesur y darn ychwanegol at ddrws ffrynt y cartref.

13.8 Lle bo dau neu fwy o ymgeiswyr yn cael eu hystyried ar gyfer y lle olaf, a bod y cyfeiriadau o fewn yr un adeilad, h.y. bloc o fflatiau, defnyddir olwyn gerdded i gyfrif y pellter o ddrws ffrynt y cartref i brif fynedfa'r adeilad.

14 Asiantaethau trais domestig

Bydd plant a gartrefir o dan warchodaeth asiantaethau trais domestig yn cael eu derbyn fel mater o flaenoriaeth i'r ysgol ddalgylch os anfonir llythyr swyddogol o'r asiantaeth berthnasol gyda'r ffurflen gais.

15 Saesneg fel iaith ychwanegol

Mae cyfle i deuluoedd y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddyn nhw, a phobl sydd newydd gyrraedd Casnewydd, i gael ymweliad yn eu cartref gan wasanaeth Lleiafrifoedd Ethnig Addysg Gwent er mwyn eu helpu i lenwi'r dogfennau, gyda chymorth Cynorthwydd Dysgu dwyieithhog os oes angen (ac os oes gan rywun yr iaith ofynnol), er mwyn eu helpu i gyfathrebu yn eu hiaith gyntaf. Gall rhieni ofyn hefyd am gymorth iaith gyntaf i'w helpu yn y broses Apêl yn erbyn penderfyniadau ar Dderbyn os oes angen.

16 Tystiolaeth

16.1 Wrth wneud cais gofynnir i ymgeiswyr ddarparu:

- Prawf preswyllo i gefnogi pob cais, ac i'r diben hwn bydd yr adran Derbyn i Ysgolion yn troi at gofnodion y Dreth Gyngor o breswylwyr Casnewydd. Dim ond gyda chaniatad y rhieni y gellir gwneud hyn, a bydd hyn yn ganiatad tybiedig os gwneir cais ar-lein, oni bai bod datganiad yn gwrthod caniatad yn cael ei roi pan gyflwynir y cais. Dylai unrhyw ymgeisydd na all ddarparu'r caniatad hwn, neu breswylwyr nad ydynt yn breswylwyr Casnewydd, gyflwyno tystiolaeth wedi'i llungopio er mwyn dilysu cyfeiriad eu cartref. Rhaid i'r dystiolaeth hon fod yn drwydded yrru ddilys, hysbysiad credyd treth neu fudd-dâl plant cyfredol, neu, i bobl nad ydynt yn breswylwyr yng Nghasnewydd, copi o fil cyfredol o'r dreth gyngor;
- Llungopi o dystysgrif geni'r plentyn, cerdyn meddygol GIG neu basbort dilys i ddilysu dyddiad geni'r plentyn ym mhob achos ac eithrio pan fo plentyn yn trosglwyddo o'r naill ysgol yng Nghasnewydd i'r llall.

16.2 Hefyd, bydd angen cyflwyno tystiolaeth gyda'r cais os yw unrhyw un o'r materion canlynol yn berthnasol:

- Pan fo cais yn seiliedig ar resymau meddygol mae'n rhaid i ymgeiswyr gyflwyno tystiolaeth ar ffurf adroddiad meddyg ymgynghorol, yn nodi'r fantais feddygol i'r plentyn fod yn mynychu'r ysgol ddewisol. Ni dderbynnir adroddiadau gan feddygon teulu neu weithwyr iechyd proffesiynol eraill ar i'r perwyl hwn;

- Rhaid i geisiadau ar gyfer plant a roddir ar y Gofrestr Amddiffyn Plant gael eu cefnogi gan argymhelliad ysgrifenedig gan Weithiwr Cymdeithasol gan roi rhesymau dros dderbyn plentyn i ysgol benodol er mwyn cael blaenoriaeth;
- Pan fo plentyn yn treulio amser cyfartal yn byw gyda'r ddau riant /neu os oes anghytundeb ynghylch y cyfeiriad cartref, rhaid i ymgeiswyr gyflwyno copi o'r datganiad budd-dal plant cyfredol, gan yr ystyrir lle preswyllo'r rhiant sy'n derbyn y budd-dâl fel cartref y plentyn at ddibenion y cais;
- Pan fo Gorchymyn Preswylad mewn grym sy'n effeithio ar blentyn y mae cais yn cael ei wneud ar ei gyfer, rhaid cyflwyno copi o'r gorchymyn gyda'r cais;
- Lle bu plentyn yn derbyn gofal, rhaid i ymgeiswyr gyflwyno tystiolaeth megis copi o'r dystysgrif fabwysiadu i gadarnhau'r statws hwn os ydyn nhw am i hyn gael ei ystyried wrth ddyrannu llefydd;
- Pan fo ymgeisydd yn warchodwr cyfreithiol i'r plentyn ond nid yn rhiant genedigol, rhaid iddyn nhw gyflwyno copi o'r ddogfen swyddogol sy'n rhoi'r cyfrifoldeb rhiant iddyn nhw;
- Pan fo'r ymgeisydd yn perthyn i'r lluoedd arfog ac yn gwasanaethu neu'n dychwelyd, neu'n was i'r goron, bydd angen iddyn nhw ddarparu prawf swyddogol o leoliad eu swydd sy'n nodi dyddiad dychwelyd penodol a chadarnhad o'r cyfeiriad newydd a statws teuluol;
- Pan fo cais ar gyfer Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas yn cael ei wneud am resymau crefyddol, rhaid i'r ymgeisydd ddarparu datganiad ysgrifenedig gan un o'r offeiriaid yn cadarnhau ei fod yn aelod gweithredol.

16.3 Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw darparu unrhyw wybodaeth gefnogol ofynnol er mwyn i'r cais gael ei asesu yn erbyn y meini prawf derbyn cyhoeddedig; ni fydd y Cyngor yn mynd ati i ofyn am y wybodaeth hon ar ran yr ymgeisydd.

16.4 Lle bo angen i ymgeisydd ddarparu tystiolaeth ddogfennol, argymhellir yn gryf bod llungopiâu'n cael eu darparu bob tro gan na all y cyngor warantu diogelwch y dogfennau gwreiddiol wrth eu dychwelyd yn y post. Gofynnir i ymgeiswyr sy'n darparu dogfennau gwreiddiol ddod i'r Ganolfan Ddinesig i'w casglu neu codir tâl arnynt am unrhyw gais am dychwelyd y dogfennau trwy bost cofrestredig.

16.5 Pan anfonir tystiolaeth ddogfennol yn unig heb gais, ni fydd hyn yn cael ei ystyried yn gais dilys. Ni fydd y Cyngor yn mynd ati i ofyn i'r ymgeisydd am y ffurflen gais gan mai cyfrifoldeb y rhiant yw darparu ffurflen wedi ei chwblhau.

16.6 Nid yw cais heb y dystiolaeth gywir yn gyflawn. Gall prosesu cais anghyflawn achosi oedi, a gallai hyn effeithio ar amseriad y penderfyniad. Ymchwilir i honiadau o geisiadau twyllodrus a gellir tynnu cynigion yn ôl os yw ymgeiswyr wedi mynd ati'n fwriadol i ddarparu gwybodaeth ffug er mwyn cael mantais wrth sicrhau lle mewn ysgol arbennig na fyddent yn gymwys i gael lle ynddi fel rheol.

16.7 Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw rhoi gwybod i'r Tîm Derbyn i Ysgolion am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau ar ôl iddynt gyflwyno'r cais. Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, ac amseriad y wybodaeth a ddarperir, gall newidiadau o'r fath effeithio ar y broses ymgeisio.

17 Plant Sipsi, Roma a Theithwyr

Mae'n ofynnol i'r Cyngor drwy statud, sicrhau bod pob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn derbyn addysg sy'n briodol i'w oedran, ei alluoedd, ac unrhyw anghenion addysgol arbennig, a hyrwyddo safonau uchel yn narpariaeth addysg a lles plant. Mae'r rhwymedigaethau hyn yn berthnasol i bob plentyn, boed yn drigolion parhaol yn yr ardal ai peidio. Felly, byddwn yn ymdrin â cheisiadau a wneir mewn perthynas â theuluoedd o'r fath mewn cydweithrediad â Gwasanaeth Lleiafrifoedd Ethnig Addysg Gwent (GEMS), gyda'r bwriad o leoli'r plant hyn yn yr ysgol agosaf a mwyaf priodol cyn gynted â phosibl.

18 Cyfeiriad cartref

18.1 Bydd y Cyngor yn ystyried mai cyfeiriad cartref y plentyn yw'r prif leoliad preswyllo dilys lle mae'r plentyn yn preswyllo'n barhaol gyda'i riant/gwarcheidwaid cyfreithiol ar y dyddiad cau a nodwyd, ac nid yw'n golygu'r cyfeiriad lle mae perthnasau neu eraill yn gofalu am y plentyn. Os yw plentyn yn preswyllo gyda pherthnasau neu eraill am resymau heblaw gwarcheidwaeth gyfreithiol, ni fydd y cyfeiriad hwnnw'n cael ei ystyried at ddibenion dyrannu.

18.2 Lle mae rhieni wedi rhannu cyfrifoldeb am y plentyn a bod y plentyn yn treulio'r un faint o amser gyda'r naill riant a'r llall yn ystod yr wythnos ysgol, lleoliad preswyllo'r rhiant sy'n derbyn y budd-dal plant fydd yn cael ei ystyried fel cartref y plentyn at ddibenion dyrannu.

18.3 Gan nad oes dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yn ystod y flwyddyn, wrth brosesu ceisiadau yn ystod y flwyddyn, at ddibenion dyrannu bydd y Cyngor yn ystyried y cyfeiriad lle mae'r rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol yn preswyllo ar adeg cyflwyno'r cais.

18.4 Bydd y Cyngor yn defnyddio'r cyfeiriad cartref a ddarperir yn y cais i bennu'r ysgol ddalgylch ac unrhyw gymhwyster am gludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol, yn unol â pholisi cludiant cyfredol y Cyngor (gweler paragraff 30).

18.5 Bydd unrhyw gyfeiriad newydd yn cael ei ystyried wrth benderfynu ar ganlyniad eich cais os nad ydych chi'n byw yno ar y dyddiad cau (tudalen 2).

18.6 Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw hysbysu'r Tîm Derbyn i Ysgolion am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau, gan gynnwys newid cyfeiriad ar ôl cyflwyno'r cais. Mae hyn er mwyn sicrhau bod gohebiaeth yn cael ei hanfon cyfeiriad cywir ac ni fydd yn effeithio ar ganlyniad y cais os yw hyn ar ôl y dyddiad cau. Dim ond os yw'r plentyn yn byw yno ar y dyddiad cau a bod tystiolaeth foddhaol yn cael ei chyflwyno i gadarnhau hyn y gellir ystyried unrhyw gyfeiriad newydd wrth benderfynu ar ganlyniad cais.

18.7 Ni ddylai ymgeiswyr sy'n symud i Gasnewydd neu'n symud o fewn Casnewydd ragdybio y bydd eu plant yn cael lle yn yr ysgol leol. Nid oes gwarant o le mewn unrhyw ysgol, hyd yn oed os yw yn y dalgylch, ac os yw'r ysgol eisoes yn llawn yng ngrŵp blwyddyn y plentyn, bydd y cais yn cael ei wrthod.

19 Ysgolion annibynnol

Dylai unrhyw geisiadau ar gyfer Ysgol Annibynnol gael eu gwneud yn uniongyrchol i'r ysgol honno. Cynghorir rhieni plant sy'n byw yng Nghasnewydd i wneud cais am le yn un o ysgolion Casnewydd hefyd rhag ofn i'w cais am yr Ysgol Annibynnol fod yn aflwyddiannus, a dylent nodi eu bod yn gwneud cais am le mewn Ysgol Annibynnol ar eu ffurflenni cais.

20 Ceisiadau hwyr a dewisiadau ychwanegol

20.1 Mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau hwyr drwy ddefnyddio ffurflen gais papur. Ni ellir cyflwyno cais ar-lein ar ôl y dyddiad cau.

20.2 Mae'n rhaid hysbysu'r Tîm Derbyn i Ysgolion yn ysgrifenedig am bob ysgol ychwanegol a ddewisir (gan gynnwys lle mae ymgeisydd wedi penderfynu newid ei ddewis) a bydd y ceisiadau hynny a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu prosesu o dan y trefniant ceisiadau hwyr a dewisiadau ychwanegol.

20.3 Bydd unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu prosesu bob mis, lle'n bosibl a bydd llythyrau penderfyniad yn cael eu hanfon erbyn diwedd y mis ar ôl y cais.

21 Plant sy'n Derbyn Gofal

21.1 Mae ceisiadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (plant mewn gofal cyhoeddus) [fel y diffinnir gan Adran 22 Deddf Plant 1989] yn cael blaenoriaeth os ydynt yn cael eu cefnogi gan ddatganiad gan Weithiwr Cymdeithasol y plentyn yn amlinellu'r manteision o gael lle yn yr ysgol. Gellir rhoi'r flaenoriaeth hon hefyd i blant a fu'n derbyn gofal, er bod yn rhaid i'r unigolyn sy'n cyflwyno'r ddarparu tystiolaeth o'r statws gofal blaenorol, fel Tystysgrif Fabwysiadu.

21.2 Bydd plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant sy'n cael eu hargymell am le gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ond yn cael blaenoriaeth os oes lleoedd ar gael.

22 Angen Meddygol

Mae ceisiadau am resymau meddygol yn cael eu blaenoriaethu os ydynt yn cael eu cefnogi gan adroddiad meddyg ymgynghorol y mae'r ymgeisydd wedi'i gael yn nodi'r fantais feddygol i'r plentyn pe bai'n mynychu'r ysgol ddewisol. Ni dderbynnir adroddiadau gan feddygon teulu neu weithwyr iechyd proffesiynol eraill at y diben hwn. Noder mai dim ond os oes lleoedd ar gael y rhoddir blaenoriaeth.

23 Plant genedigaethau lluosog

Os wrth roi'r meini prawf ar waith pan fo gormod o geisiadau am le, bod y plentyn olaf i gael ei dderbyn yn un o enedigaeth luosog, yna bydd y Cyngor yn derbyn y brawd neu chwaer (brodyr neu chwiorydd) eraill (gweler paragraff 8.9 hefyd).

24 Preswylwyr nad ydynt yn preswyllo yng Nghasnewydd

Dylai ymgeiswyr sy'n byw mewn ardaloedd awdurdodau (cyngorau) eraill sydd am i'w plant fynd i ysgol yng Nghasnewydd wneud cais drwy Gyngor Dinas Casnewydd yn unol ag amserlenni cytunedig y Cyngor. Noder nad yw'r Cyngor yn gallu archwilio cofnodion Treth Gyngor preswylwyr ardaloedd eraill, ac felly mae'n rhaid i geisiadau o'r fath gael eu cefnogi gan dystiolaeth o breswyllo wedi'i llungopio.

25 Dyddiad cynnig

25.1 Bydd canlyniadau pob cais yn cael eu cyhoeddi'n ysgrifenedig ar y dyddiad cynnig perthnasol (tudalen 2). Dyma'r dyddiad y bydd llythyrau penderfyniadau'n cael eu postio. Dim ond ymgeiswyr ar-lein (heb gynnwys y rhai y gwnaed cais ar eu rhan drwy'r dull â 'chymorth') fydd yn gallu gweld eu penderfyniadau ar y dyddiad drwy'r system ar-lein.

25.2 Ni fydd ymgeiswyr yn cael eu hysbysu o'r penderfyniad dros y ffôn a dylent ganiatáu digon o amser i dderbyn y llythyr penderfyniad cyn cysylltu â'r Tîm Derbyn i Ysgolion.

26 Dewisiadau rhieni

26.1 Mae gan rieni'r hawl i wneud cais am yr ysgol o'u dewis ac fel awdurdod derbyn mae gan y Cyngor ddyletswydd i gydymffurfio â dewisiadau rhieni, ac eithrio:

- Lle byddai cydymffurfio â'r dewis yn niweidio darpariaeth addysg effeithlon neu'r defnydd effeithlon o adnoddau.
- Lle mae plentyn wedi'i wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu fwy a bod y gwaharddiad diweddaraf wedi digwydd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

26.2 Bydd mynegi dewis yn rhoi blaenoriaeth i blentyn dros blant nad yw eu rhieni wedi mynegi dewis ar gyfer yr ysgol honno.

26.3 Bydd yr holl ddewisiadau yn cael eu hystyried yn gyfartal, ond gan nad yw mynegi dewis yn rhoi sicrwydd o dderbyn i'r ysgol ddewisol, hyd yn oed ar gyfer preswylwyr dalgylch, rydym yn awgrymu nad ydych yn dweud wrth blant y bydd lle ar gael iddynt mewn unrhyw ysgol benodol cyn i benderfyniad gael ei wneud.

26.4 Wrth wneud cais, argymhellir eich bod yn enwi o leiaf tair ysgol ddewisol wahanol a bod un o'r dewisiadau ar gyfer yr ysgol ddalgylch er mwyn cynyddu'r cyfle o sicrhau lle sy'n dderbyniol.

26.5 Disgwylir i rieni gytuno ar y dewis o ysgolion ar gyfer plant cyn gwneud cais. Nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i ymyrryd mewn anghydfodau rhwng rhieni dros geisiadau am ysgolion a byddant yn gofyn i'r rhain gael eu datrys yn breifat.

27 Gwrthodiadau

27.1 Os gwrthodir dewis, cynghorir ymgeisydd am ei hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad a bydd enwi'r plentyn yn cael ei roi ar y rhestr aros ar gyfer yr ysgol honno. Nid yw hyn yn berthnasol i dderbyniadau meithrin, lle nad oes hawl i apelio.

27.2 Lle gwrthodir holl ddewisiadau'r ymgeisydd, a'i fod yn preswyllo yng Nghasnewydd, bydd y plentyn yn cael ei ystyried ar gyfer lle amgen yn yr ysgol ddalgylch os oes lleoedd ar gael. Os nad yw'r ysgol ddalgylch ar gael byddwn yn hysbysu'r ymgeisydd am yr ysgolion sydd â lleoedd ar gael a'u gwahodd i fynegi dewisiadau ychwanegol i'w hystyried o dan **drefniadau cais hwyr a dewis ychwanegol** y Cyngor (paragraff 20). Dylai ymgeiswyr aflwyddiannus nad ydynt yn preswyllo yng Nghasnewydd gysylltu â'u hawdurdod lleol cartref am ysgol amgen neu gyflwyno dewisiadau ychwanegol ar gyfer ysgolion eraill yng Nghasnewydd.

27.3 Noder, yn wahanol i'r broses yn y blynyddoedd diwethaf, ni fydd lle amgen yn cael ei gynnig yn awtomatig os gwrthodir holl ddewisiadau rhieni. Yn hytrach, fel y nodir uchod, bydd ymgeiswyr yn cael eu gwahodd i gyflwyno dewisiadau ychwanegol.

28 Ysgolion mewn ardal cyngor arall

Dylai rhieni sydd am wneud cais am ysgol y tu allan i Gasnewydd wneud y cais yn uniongyrchol i'r awdurdod derbyn perthnasol yn unol â'u trefniadau derbyn.

29 Brodyr a Chwiorydd

29.1 Bydd brodyr neu chwiorydd, hanner, llawn, llys neu fath, yn cael eu hystyried yn frodyr neu chwiorydd perthnasol os ydynt yn byw ar yr un aelwyd ac os ydynt yn dal i fod wedi'u cofrestru â'r ysgol pan mae'r ymgeisydd yn gymwys i fynychu. Fodd bynnag, ni fydd brodyr neu chwiorydd ym Mlynnyddoedd 12 ac 13 yn cael eu hystyried yn berthnasol o dan y maen prawf hyn.

29.2 Wrth ddyrannu lleoedd meithrin noder nad yw brodyr a chwiorydd yn derbyn blaenoriaeth o dan y meini prawf cyhoeddedig ar gyfer sefyllfaoedd pan fo gormod o geisiadau am le.

29.3 Nid yw derbyn plentyn i ysgol yn gwarantu y bydd lle ar gael i blant eraill yn y teulu.

30 Cludiant

Darperir cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol i ddisgyblion oedran cynradd sy'n byw ddwy filltir neu fwy o'u hysgol ddalgylch neu'r ysgol agosaf sydd ar gael a disgyblion oedran uwchradd sy'n byw dair milltir neu fwy o'u hysgol ddalgylch neu'r ysgol agosaf sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion ffydd. Yn ogystal â hyn, dywed Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) bod plentyn yn gymwys i gael cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol i ysgol amgen os yw hyn yn agosach na'r ysgol ddalgylch a chyn belled â'i fod yn bodloni'r gofyniad pellter.

31 Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, neu ysgolion ffydd

31.1 Gan mai Cyrff Llywodraethu sy'n gyfrifol am dderbyniadau i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, bydd gan bob un ei pholisi derbyniadau ei hun. Gan ei bod yn ofynnol i bob awdurdod derbyn yng Nghasnewydd gydweithio tuag at gyfres gyffredin o ddyddiadau cau a dyddiadau cynnig, bydd yn rhaid cadw at yr amserlen y cytunodd y Cyngor arni (tudalen 2) ym mhob. Mae ffurflenni cais a manylion llawn y trefniadau derbyn hyn ar gael yn uniongyrchol o'r ysgol berthnasol.

31.2 Dylai ymgeiswyr sydd am fynegi dewisiadau ychwanegol ar gyfer ysgolion cymunedol gwblhau cais Cyngor Dinas Casnewydd a'r cais a gyflenwir gan yr ysgol wirfoddol a gynorthwyir y maent yn gwneud cais iddi, gan nodi trefn eu dewisiadau yn glir yn y naill gais a'r llall. Mae protocolau rhannu gwybodaeth yn bodoli rhwng y Cyngor a'i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir i nodi plant y mae mwy nag un cais wedi'i wneud ar eu cyfer. Byddwn yn cysylltu â'r ymgeiswyr hynny nad ydynt yn nodi trefn ddewisol ac yn gofyn iddynt gadarnhau hyn cyn penderfynu ar y cais.

32 Rhestr aros

32.1 Yn ystod y rownd dderbyniadau arferol, bydd enw plentyn yn aros ar y rhestr aros ar gyfer unrhyw ddewis ysgol a wrthodwyd tan 30 Medi yn y flwyddyn y gwnaed y cais. Os yw lleoedd yn dod ar gael wedi hynny, bydd yr holl blant ar y rhestr aros ar yr adeg honno yn cael eu hystyried gyda'i gilydd am le ac yn cael eu blaenoriaethu fel y nodir yn y meini prawf cyhoeddedig pan fo gormod o geisiadau am le.

32.2 Gall safle plentyn ar y rhestr aros yn newid os derbynnir ceisiadau dilynol sydd â mwy o flaenoriaeth o dan y meini prawf derbyn. Nid yw rhestri aros yn rhoi blaenoriaeth i blant ar sail y dyddiad yr ychwanegwyd y cais at y rhestr ac nid eu cynnwys ar restr aros ysgol yn golygu y bydd lle ar gael yn yr ysgol ddewisol yn y pen draw.

32.3 Ar ôl 30 Medi, bydd ymgeiswyr yn cael y cyfle i aros ar y rhestr aros am weddill y flwyddyn academaidd, ac wedi hynny gellir cyflwyno cais newydd.

Rhestr aros meithrin

32.4 Yn ystod y rownd derbyniadau meithrin, bydd unrhyw blentyn nad yw wedi gallu cael lle yn cael ei ychwanegu at restr aros, a gedwir tan 30 Medi yn y flwyddyn y mae'r plentyn i fod i ddechrau mewn dosbarth meithrin.

32.5 Os oes lleoedd ar gael wedi hynny, bydd yr holl blant ar y rhestr aros ar y pryd yn cael eu hystyried gyda'i gilydd am y lle ac yn cael eu blaenoriaethu yn unol â'r meini prawf cyhoeddedig pan fo gormod o geisiadau am le. Nid yw rhestri aros yn rhoi blaenoriaeth i blant ar sail y dyddiad yr ychwanegwyd y cais at y rhestr ac nid yw eu cynnwys ar restr aros meithrinfa yn golygu y bydd lle ar gael yn y dosbarth meithrin dewisol yn y pen draw.

32.6 Yn benodol, o ran y broses derbyniadau meithrin, cedwir y rhestr aros ar gyfer y disgyblion hynny nad ydynt wedi cael lle. Os dyrennir lle meithrin i'r plentyn, ni fydd yn gymwys ar gyfer y rhestr aros.

33 Ysgolion cyfrwng Cymraeg

Mae pob ysgol cyfrwng Cymraeg yng Nghasnewydd yn ysgol gymunedol a gynhelir gan y Cyngor sc felly mae'r trefniadau hyn yn berthnasol iddynt. Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgolion hyn ym mhob gweithgaredd – ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r holl addysgu ac asesu, heb law am Saesneg fel pwnc, trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob cyfnod allweddol.

Ardan B: Derbyn yn ystod y flwyddyn

B1 Gall rhieni ofyn i newid ysgolion ar unrhyw adeg yn ystod addysg eu plant ac mae nifer o resymau dilys dros wneud hynny, fel symud tŷ ac ati. Mae newid ysgolion yn fater sydd angen ei ystyried o ddifrif. Nid dyna'r ateb bob tro gan y gall effeithio'n niweidiol ar addysg plentyn.

B2 Yn ystod y flwyddyn ysgol dim ond lleoedd cyfyngedig sydd ar gael ac ni ddylai ymgeiswyr sy'n symud i neu o fewn Casnewydd gymryd yn ganiataol y bydd eu plentyn yn cael lle yn awtomatig yn yr ysgol leol. Nid oes gwarant o le mewn unrhyw ysgol, hyd yn oed os yw yn y dalgylch, a bydd y cais yn cael ei wrthod os yw'r ysgol eisoes yn llawn yn y grŵp blwyddyn perthnasol.

B3 O'r herwydd, dylech ystyried y canlynol a thrafod pob opsiwn gyda'r Tîm Derbyn i Ysgolion cyn i chi symud er mwyn aflonyddu cyn lleied â phosibl ar blant.

- Ydych chi wedi trafod opsiynau eich plentyn gyda'i ysgol bresennol? Efallai bod rhesymau addysgol cryf pam na ddylid symud, a bydd angen ystyried y rhain. Dylai rhieni disgyblion ym Mflwyddyn 10 neu Flwyddyn 11 yn benodol nodi nad yw'r Cyngor yn annog ceisiadau i symud yn y cyfnod hwn o addysg plentyn, yn enwedig lle nad yw'n bosibl darparu ar gyfer eu hopsiynau TGAU gan y bydd hyn yn debygol o gael effaith niweidiol sylweddol ar eu deilliannau dysgu.
- Sut bydd eich plentyn yn teithio i'r ysgol, gan na fydd yn gymwys i gael cymorth cludiant o reidrwydd, hyd yn oed oes oedd yn gymwys yn flaenorol (paragraff 3.44)?

- Os ydych chi'n gwneud cais i symud mwy nag un plentyn, a fydd lle iddynt i gyd yn yr un ysgol? Mewn rhai achosion efallai y byddwch chi'n cael cynnig gwahanol ysgolion ar gyfer pob brawd neu chwaer, yn dibynnu at faint o leoedd sydd ar gael.
- Pryd fydd eich plentyn yn gallu dechrau yn yr ysgol newydd? Cynghorir rhieni yn gryf na ddylent symud eu plentyn o'r ysgol bresennol tan i le amgen addas fod ar gael os yw hynny'n bosibl. Bydd peidio â mynychu'n cael ei gofnodi fel absenoldeb heb ei awdurdodi a gellid rhoi gwybod i'r Swyddog Lles Addysg am hynny. Noder na fydd symud ysgol yn amharu ar unrhyw gamau sydd eisoes yn cael eu cymryd gan y Gwasanaeth Lles Addysg.

Sut mae gwneud cais yn ystod y flwyddyn am ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a reolir

B4 Mae'n rhaid gwneud pob cais, boed rhwng ysgolion yng Nghasnewydd neu y tu allan i'r Ddinas, ar ffurflen gais Derbyn neu Symud yn Ystod y Flwyddyn, sydd ar gael ac i'w dychwelyd i'r Tîm Derbyn i Ysgolion yn y Ganolfan Ddinesig (ffoniwch 01633 656656 i ofyn am ffurflen gais neu ei lawrlwytho o www.newport.gov.uk/schooladmissions).

Sut y dyrennir lleoedd

B5 Mae ceisiadau'n cael eu prosesu'n unol â'r polisi derbyn hwn a bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r rhai sy'n gwneud cais am le yn y tymor presennol. Lle bydd cais yn cael ei wneud gryn amser cyn y dyddiad cychwyn gofynnol, ni fydd y Cyngor yn cadw'r lle yn agored am fwy nag un tymor ysgol.

B6 Nid yw penaethiaid yn gallu rhoi unrhyw arwydd i rieni y bydd eu cais yn llwyddiannus, na dweud wrthynt bod eu plentyn wedi cael lle yn yr ysgol, cyn i'r Cyngor gynnig lle yn ffurfiol.

Deall canlyniad eich cais yn ystod y flwyddyn

B7 Bydd y Cyngor yn ceisio cydymffurfio â dewisiadau rhieni. Fodd bynnag, os yw nifer derbyn y grŵp blwyddyn berthnasol yn yr ysgol ddewisol eisoes wedi'i gyrraedd, bydd y cais i symud yn cael ei wrthod (gweler paragraff 8.9 am eithriadau) a bydd ymgeisiwyr yn cael eu cynghori am eu hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Cyngor (gweler paragraff 6 am fanylion). Nid oes hawl i apelio yn erbyn gwrthod lle mewn dosbarth meithrin.

Hysbysu ymgeiswyr

B8 Mae'n rhaid i'r Cyngor gymeradwyo pon trosglwyddiad a bydd yn ceisio dod i benderfyniad o fewn 15 diwrnod ysgol *neu 28 diwrnod calendr, os yw hynny'n gynt) o ddyddiad derbyn y cais, er na ellir gwarantu hyn ar adegau prysur ac efallai y bydd oedi. Cyhoeddir canlyniad pob cais yn ysgrifenedig cyn gynted ag y gwneir y penderfyniad.

Rhestrri aros

B9 Os gwrthodir cais i symud yn ystod y flwyddyn, bydd enw'r plentyn yn aros ar y rhestr aros ar gyfer yr ysgol ddewisol tan ddiwedd y flwyddyn academaidd (31 Awst) y gwneir y cais ynddi, a gellir gwneud cais newydd bryd hynny. Os yw lle yn dod ar gael wedi hynny, bydd yr holl blant ar y rhestr aros ar yr adeg honno yn cael eu hystyried gyda'i gilydd ar gyfer y lle hwnnw ac yn cael eu blaenoriaethu fel y nodir yn y meini prawf cyhoeddedig pan fo gormod o geisiadau am le.

B10 Gall safle plentyn ar y rhestr aros yn newid os derbynnir ceisiadau dilynol sydd â mwy o flaenoriaeth o dan y meini prawf derbyn. **Nid yw** rhestri aros yn rhoi blaenoriaeth i blant ar sail y dyddiad yr ychwanegwyd y cais at y rhestr.

Ardan C: Niferoedd derbyn

Ysgolion cynradd cymunedol	Rif derbyn
Cyfrwng saesneg	
Alway Primary	49
Caerleon (Lodge Hill) Primary	45
Clytha Primary	30
Crindau Primary	45
Duffryn Infant	60
Duffryn Junior	60
Eveswell Primary	60
Gaer Primary	60
Glan Usk Primary	90
Glasllwch Primary	30
High Cross Primary	30
Langstone Primary	45
Llanmartin Primary	30
Lliswerry Primary	90
Maesglas Primary	35
Maindee Primary	66
Malpas Court Primary	30
Malpas Park Primary	30
Marshfield Primary	60
Millbrook Primary	30* ¹
Milton Infant	88
Milton Junior	75
Monnow Primary	52
Mount Pleasant Primary	30
Pentrepoeth Primary	60
Pillgwenlly Primary	74
Ringland Primary	36
Rogerstone Primary	60
Somerton Primary	27
St Andrew's Primary	90
St Julian's Primary	90
St Woolos Primary	45
Cyfrwng cymraeg	
Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon	30
Ysgol Gymraeg Casnewydd	49
Ysgol Gymraeg Ifor Hael	28
Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru	
Charles Williams Church in Wales Primary	75

Malpas Church in Wales Infant	58
Malpas Church in Wales Junior	52
Ysgolion Cynradd Catholig	
St David's RC Primary	30
St Gabriel's RC Primary	26
St Joseph's RC Primary	30
St Mary's RC Primary	60
St Michael's RC Primary	30
St Patrick's RC Primary	28
Ysgolion uwchradd cymunedol	
Cyfrwng saesneg	
Bassaleg School	270
Caerleon Comprehensive	241
Llanwern High	260
Lliswerry High	212
Newport High School, Bettws Lane	191
St Julian's School	242
The John Frost School	223
Cyfrwng cymraeg	
Ysgol Gyfun Gwent Is Coed	120 ^{*2}
Ysgolion uwchradd catholig	
St Joseph's RC High	230

*¹ Yn weithredol o fis Medi 2016 ymlaen y nifer derbyn ar gyfer y dosbarth derbyn yw 45. Bydd y ffigur uwch yn berthnasol felly l'r dosbarth derbyn - Blwyddyn 2 ar gyfer Medi 2018.

*² Agorodd yr Ysgol hon fel egin Ysgol ym mis Medi 2016 ar gyfer disgyblion blwyddyn 7 yn unig yn y flwyddyn gyntaf gyda'r nifer derbyn yn 90. Ar gyfer mis Medi 2018 mae'r ffigur uwch o 120 yn berthnasol l flwyddyn 7/8 yn unig.